tafod elái

TACHWEDD 2015

Rhif 302

Pris 80c

Llwyddiant Lido Ynysangharad

Mae tymor cyntaf Lido Cenedlaethol Cymru wedi bod yn llwyddiannus dros ben gyda dros 20,000 o bobl wedi ymweld rhwng diwedd Awst a diwedd Hydref. Adeiladwyd y Lido yn 1927 i ddod ag awyrgylch môr y canoldir i Bontypridd ac am ei fod yn adeilad o bwys hanesyddol buddsoddwyd £6.3m i'w adnewyddu a'i wneud yn ddeniadol a chroesawgar.

Mae'r Lido yn cynnwys Canolfan i Ymwelwyr, lle cewch ddysgu llawer yn rhagor am ei orffennol gyda darn o ffilm arbennig gyda chyfweliadau â phobl leol sy'n siarad am eu hatgofion o faddonau Ponty. Mae Canolfan Ymwelwyr Lido Ponty uwchben Café'r Lido ar agor i'r cyhoedd o 9am tan 5pm bob dydd, drwy gydol y flwyddyn.

Rhoddwyd croeso arbennig i'r 10,000ed ymwelydd ym mis Medi. A thrwy lwc gohebydd Tafod Elái Pontypridd, Jayne Rees, gafodd y fraint a'r sylw.

Jay yn torri cwys newydd yn Rownd a Rownd

Mae gan yr actor Jay Worley, sy wedi ymuno â chast Rownd a Rownd fel Jac - steilydd yn Siop Trin Gwallt Dani, her enfawr o'i flaen.

"Dwi'n warthus am dorri gwalltiau!" meddai'r llanc 22 oed o'r Beddau, a oedd ar y sgrin am y tro cyntaf nos Fawrth, 20 Hydref. "Un diwrnod roedd rhaid i mi dorri gwallt merch ar y set a do'n i ddim yn gwybod lle i ddechrau. Roedd rhaid i mi dorri i mewn i'w extensions hi, ond doeddwn i ddim yn gwybod lle'r oedd y gwallt go iawn yn dechrau. Ro'n i'n nerfus tu hwnt! Dwi'n parchu pobl trin gwallt llawer mwy nag yr oeddwn i!"

Erbyn hyn mae Jay ychydig yn fwy hyderus gyda'i siswrn trin gwallt; ac mae wedi bod ar brofiad gwaith i siopau trin gwallt. Mae ei fodryb, sy'n torri gwallt ym Mhontypridd, wedi bod yn rhoi tips iddo, ac mae Jay wedi ymweld lawer tro â siopau trin gwallt ym Mhorthaethwy, lle mae'r gyfres yn cael ei ffilmio.

Bu Jay yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a graddiodd o'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. Efallai bydd wyneb Jay yn gyfarwydd i rai gwylwyr. Yn 15 oed cyrhaeddodd y 48 olaf yng nghystadleuaeth The X Factor, fel canwr ac yn 18 oed aeth i rowndiau cynderfynol Britian's Got Talent. Meddai am y profiad, "Ro'n i rhy ifanc i fod ar The X Factor. Ond fe wnaeth y cystadlaethau fy ngwthio i i'r cyfeiriad cywir, ac ro'n nhw'n gyfleoedd da."

Daw Jac, fel Jay o dde ddwyrain Cymru, ac mae ganddo reswm dros ddod i bentre' Glanrafon. "Bydd rhaid i chi wylio i weld pam," meddai Jay yn ddireidus gan fynd ymlaen i ddweud ei fod wrth ei fodd yn gweithio ar yr opera sebon.

Mae Jac yn dechrau ar nodyn go anffodus, wedi iddo gamu o flaen car Ken, ac achosi i'r gyrrwr tacsi golli ei dymer. Ond ar y cyfan, mae Jac yn gymeriad poblogaidd gyda gweddill trigolion Glanrafon.

"Dwi'n gwylio Rownd a Rownd ers i mi fod yn ifanc, a dwi wedi dilyn Gwion Tegid sy'n actio Barry a Ffion Medi sy'n portreadu Dani ers ro'n i tua 10 oed," meddai Jay sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon. "Dwi'n dechrau siarad fel rhai o'r cast erbyn hyn hefyd - dwi'n dweud llefrith lle ro'n i arfer dweud lla'th!

"Dwi wedi syrthio mewn cariad gyda'r gogledd orllewin; mae e'n lle mor brydferth i fyw. "

Ysgol Pont-Sion-Norton

Aelodau'r Cyngor
Llongyfarchiadau i'r plant gafodd eu dewis fel aelodau o'r Cyngor Eco a'r Cyngor Ysgol. Maent i gyd yn frwdfrydig iawn wrth ddechrau ar eu dyletswyddau pwysig.

Llancaiach Fawr
Aeth blynyddoedd 5 a 6 i Lancaiach fawr am y dydd yn ddiweddar fel rhan o'u thema 'Bant â'i Phen'. Roedd yn brofiad gwych teithio nôl mewn amser ac yn gymorth mawr gyda'u gwaith nôl yn y dosbarth.

Bore Coffi
Diolch i flwyddyn 6 am drefnu bore coffi MacMillan ar ddiwedd mis Medi. Roedd pawb wedi mwynhau wrth godi arian ar gyfer yr elusen.

Blasu bwyd
Cafwyd prynhawn diddorol yn nosbarth blwyddyn 3 wrth flasu bwyd y Rhufeiniaid fel rhan o'u thema. Roedd y ffigiau yn boblogaidd, ond doedd dim llawer eisiau blasu'r datys eto!! Diolch i Gwen am ddod â'r bwyd i'r ysgol.

Tasgau Cyfoethog
Bu wythnos ddiddorol o dasgau cyfoethog cyn hanner tymor. Roedd blynyddoedd 2 i 6 yn astudio themau cyffrous ar draws y cwricwlwm. Thema blynyddoedd 5 a 6 oedd hanes Calan Gaeaf ac roedd blynyddoedd 3 a 4 yn astudio hanes Guto Ffowc. Roedd rocedi pop blynyddoedd 3 a 4 yn ffrwydro yn uchel!!!

Disgo
Diolch i Ffrindiau Pont-Sion-Norton am drefnu'r disgo Calan Gaeaf. Diolch hefyd i'r staff am aros ar ôl ysgol i gynorthwyo. Codwyd llawer o arian tuag at wella iard yr ysgol.

Bwyd y Rhufeiniaid

Roced Pop

Ysgol Creigiau

Llongyfarchiadau i Mrs Lynette Timothy ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Bennaeth yr ysgol. Bydd Mrs Timothy yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Ionawr.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Michael Coles ar gael ei benodi'n Rheolwr Ystâd yr ysgol. Bydd Mr Coles yn dechrau ar ei swydd newydd cyn y Nadolig.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r ddau atom i ysgol Creigiau.

Fe ddaeth cyfraniadau di-ri o fwydydd i'r ysgol ar ddiwrnod ein Gwasanaeth Cynhaeaf. Llwyddwyd i lenwi 20 cawell o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Yn ogystal â hyn, casglwyd £135 tuag at ein helusen dewisol eleni sef, Diabetes U.K. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Llongyfarchiadau mawr i ddau ddisgybl o'r ysgol sef Joe Webb a Siôn Davies, ar gael eu dewis i ymuno â charfan Rygbi Ysgolion Caerdydd. Llongyfarchiadau i Daniel Watts hefyd sydd wedi bod yn rhan o Academi Pêl-droed Abertawe ers blwyddyn bellach. Tipyn o gamp fechgyn!

Cyn hanner tymor, trefnwyd Disgo Calan Gaeaf gan Gyfeillion yr Ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang gyda gwrachod, sgerbydau a phob math o greaduriaid brawychus eraill. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol unwaith eto am eu gwaith diflino yn trefnu'r digwyddiadau hyn er mwyn codi arian i'r ysgol.

Siôn Davies a Joe Webb sydd wedi cael eu dewis i ymuno â charfan Rygbi Ysgolion Caerdydd a Daniel Watts sydd yn rhan o Academi Pêl-droed Abertawe.

Disgyblion yn estyn cymorth i lwytho 20 cawell o fwydydd i fan Banc Bwyd Caerdydd

Disgyblion yr ysgol yn dathlu ar Ddiwrnod Cwpan Rygbi'r Byd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Mynd am dro
Mwynheuodd y plant Meithrin a Derbyn fynd am dro yn ddiweddar i arsylwi ar arwyddion yr Hydref. Casglodd y plant lawer o ddail amrywiol ar gyfer ein bwrdd natur.

Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco
Llongyfarchiadau mawr i'r plant sy wedi eu hethol ar gyfer y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco.

Bangladesh
Pob hwyl i Mr Meredith a Twm Tedi sydd yn ymweld â Bangladesh dros yr hanner tymor. Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed yr hanes am ei drip!

Paratoi i Gysgu
Ddydd Gwener y 23ain, daeth plant y Meithrin Derbyn i'r Ysgol yn eu 'pyjamas' i gyd-fynd â'r thema 'Pan af fi i gysgu'. Gwnaeth y plant amryw o weithgareddau e.e. cebab ffrwythau, addurno bisgedyn, a bwyta 'popcorn'.
Ar ddiwedd y dydd, gwyliodd y plant DVD ac esgus paratoi ar gyfer mynd i'r gwely.

Gilfach Goch (Tudalen 5)



Esmay gyda Marilyn yn y clwb rygbi



Trip Cantref 2015

Aeth plant Ysgol Sul y Tabernacl i Fferm Cantref ar drip Ysgol Sul yn ddiweddar. Roedd yna lawer o bethau gwahanol yno, o ddrysfa, cyffwrdd anifeiliaid a brwydr ddŵr. Roedd bron a bod pawb yn wlyb erbyn diwedd y dydd. Dysgodd llawer o bobl sut i ferlota ceffyl a chael bathodyn am eu camp. Aeth rhai ohonom ar goll yn y ddrysfa, yn enwedig Ffion a minnau. Daethom mas a dywedom "Aethom ni'n sownd yn y ddrysfa yna am tua awr, doedd gan neb syniad ble oeddem ni!" Yna penderfynodd y plant ei fod yn syniad da i brynu balwnau dŵr a'u llenwi nhw lan gymaint fel na allen nhw eu cau nhw bron. Roedd pawb yn wlyb o'u corun i'w sawdl, ac ambell un wedi mynd yn ôl adref ar y bws â phen ôl gwlyb! Mwynheuodd y plant ganu "Let it Go" allan o ffilm Frozen ar y ffordd adref. Dwi'n siwr bod y gân wedi mynd ar nerfau'r rhieni erbyn y diwedd, druan ohonyn nhw!!!

Brengain Rhys

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant (Tudalen 11)

Disgyblion dosbarth 9 yn plannu bylbiau.

Rhai o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn cael gwersi golff.

Dathlu Diwrnod T Llew Jones

Sgwrsio gyda Caroline Martin yn dilyn cyfarfod Merched y Wawr (Tudalen 6)

Y "Super Attender"

Adnewyddu Capel Tabernacl, Efail Isaf

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu Jane Turner, Ffordd y Capel a fu farw yn ystod mis Hydref. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Salem, Tonteg gan fod Capel y Tabernacl yn cael ei adnewyddu. Bu Jane yn ofalwraig y capel yn Efail Isaf am gyfnod cyn iddi golli ei hiechyd. Talwyd teyrnged iddi yn yr angladd gan Geraint Rees, Penywaun.

Cylch Cadwgan
Nos Wener, yr ail o Hydref daeth cynulleidfa deilwng iawn i gyfarfod cyntaf tymor yr hydref o Gylch Cadwgan. Nia Williams oedd llywydd y noson a hi gafodd y fraint o gyflwyno Gareth F Williams i'r gynulleidfa. Nid bod angen cyflwyno Gareth gan ei fod yn awdur o fri, a'i destun ar y noson oedd "Y Busnes o Sgwennu".

Gareth oedd enillydd Llyfr y Flwyddyn yn gynharach eleni ac mi dderbyniodd glod mawr gan y beirniaid am ei nofel "Awst yn Anogia". Gwta wythnos cyn ei ddyfarnu'n enillydd llyfr y flwyddyn roedd Gareth wedi derbyn Gwobr Tir na n-Og, a hynny am y chweched tro am ei nofel i bobl ifanc.

Dechreuodd Gareth ei yrfa fel athro yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ond ar ôl rhyw saith mlynedd roedd yr ysfa i ysgrifennu'n llawn amser yn ei gymell i roi'r gorau i'w swydd fel athro. Fe wynebodd Gareth gyfnod o galedi a thlodi am sawl blwyddyn gan nad yw ysgrifennu'n broffesiynol yn sicrhau bywoliaeth yng Nghymru. Daeth gwaith sgriptio gan rai o'r cwmnïau teledu i'w achub ac mae'n dal i ysgrifennu ambell gyfres megis "Lan a lawr" sydd yn cael ei ddarlledu ar hyn o bryd.

Dioddefodd Gareth gyfnod o afiechyd llynedd, ond diolch i'r drefn mae wedi tynnu trwy'r profiad ac wedi ail-gydio yn y gwaith o ysgrifennu gyda brwdfrydedd ac afiaith. Gobeithio y caiff Gareth iechyd am flynyddoedd lawer i gyfoethogi silffoedd llyfrau y plant, yr ifanc a'r oedolion. Diolch am noson ddifyr iawn.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Heulwen Rees, Heol Iscoed sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gŵyl Cerdd Dant
Dymuniadau gorau i bawb o'r pentref sydd yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant ym Mhorthcawl ddydd Sadwrn, Tachwedd 14eg.

Y TABERNACL
Cyfarfod Diolchgarwch
Cynhaliwyd ein hoedfa diolchgarwch fore Sul, Hydref 11eg, ac mi roedd Neuadd y Pentref dan ei sang. Lowri Roberts lywyddodd yr Oedfa a chafwyd eitem ddiddorol gan Ddosbarthiadau 1 a 2 yr Ysgol Sul. Cafwyd datganiad medrus iawn ar y piano gan Ellis Rees. Heulyn Rees, gyda help y bobl ifanc fu'n ein hannog fel cynulleidfa i ddiolch am ffrindiau a theulu, am gartref, am fwyd ac am ddillad. Derbyniwyd llawer iawn o fwyd i'w gyflwyno i'r Banc bwyd ym Mhontyclun yn ystod y gwasanaeth. Gwahoddwyd pawb i gael paned ac i gymdeithasu ar ôl yr Oedfa.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Dewi Hughes, Pentyrch a gollodd ei dad yn sydyn ddiwedd mis Awst. Roedd Mr Lewis Hughes yn 90 oed ac rydym yn meddwl am y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad i Siân ac Emlyn Penny Jones a'r teulu ar golli mam Siân yn ystod y mis.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Elwyn a Carys Davies ar enedigaeth ŵyr bach newydd. Mae Steffan Moi yn fab i Aled a Sara, ac yn frawd i Elis Morgan.

Y Twmiaid Bach
Mae'r Twmiaid Bach yn cyfarfod ar nos Sul erbyn hyn. Byddant yn cyfarfod yn y Ganolfan bob yn ail nos Sul am 5 o'r gloch. Bydd y cyfarfodydd nesaf ar Dachwedd 1af ,15fed a'r 29ain, ac wedyn ar Ragfyr 13eg. Bydd croeso i blant blwyddyn 5 ac uwch i ymuno â'r grŵp.

Merched y Tabernacl
Fore Mawrth, Hydref 13eg daeth nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl i'r Ganolfan i "baratoi ar gyfer y Nadolig". Na - dyw hi ddim yn rhy gynnar i ddechrau paratoi ar gyfer y Nadolig yn ôl Eluned Davies Scott, ein siaradwraig wadd. Mae'n hen bryd paratoi'r deisen a'r pwdin Nadolig ac fe ellwch wneud y mins peis a'u rhoi yn y rhewgell. Fe gawsom syniadau ardderchog gan Eluned am anrhegion bach unigryw i roi i ffrindiau sydd "yn meddu ar bopeth!" Mae gwneud potyn o jam cartref neu friwgig melys (mince meat) neu botelaid o win eirin tagu yn anrheg fach dderbyniol iawn. Cawsom ddigon o syniadau amrywiol ac roedd arogl hyfryd y pice bach yn crasu yn tynnu dŵr i'r dannedd. Cawsom baned i orffen y cyfarfod a chyfle i flasu'r holl ddanteithion.

Diolch Eluned am fore diddorol iawn.

Ein cyfarfod nesaf, ar fore Gwener, Tachwedd 13eg fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yng nghwmni Ann Saer. Byddwn yn cyfarfod am baned am 10:30 y bore yng nghaffi'r Amgueddfa.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Tachwedd
Tachwedd 1af Oedfa Gymun o dan ofal y Parchedig Allan Pickard
Tachwedd 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Tachwedd 15fed Emlyn Davies
Tachwedd 22ain Allan James
Tachwedd 29ain Y Parchedig Gethin Rhys

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Clwb Rygbi
Estynwyd croeso mawr i Glwb Rygbi Petersham, Awstralia nôs Fercher 30 Medi ar gyfer gêm er cof am Ivor Compton. Bu farw Ivor yn gynharach yn y flwyddyn. Gwnaeth Ivor a'i deulu ymfudo i Awstralia dros 30 mlynedd yn ôl.

Dyn ffyddlon i'r Clwb Rygbi oedd Ivor fel chwaraewr a chapten, hyfforddwr ac ysgrifennydd. Fe oedd yn allweddol gyda'r perthynas rhwng Gilfach Goch a Petersham, a gychwynodd ym 1966, cyn iddo ymfudo.

Noson emosiynol iawn i Marilyn ei wraig wrth gwasgaru peth o lwch Ivor ar y cae chwarae cyn y gêm ynghanol sgarmes y ddau dîm.

Capten tîm Gilfach oedd Gareth Walters sef yr hyfforddwr presennol oedd eisiau chwarae gan fod ei dad, Brian, yn gapten yr Ieuenctid pan ddaeth Petersham draw yn Rhagfyr 1975. Merch Gareth, Esmay oedd mascot y noson (llun Esmay gyda Marilyn tudalen 3).

Beirdd lleol
Mae Cymdeithas Hanes Gilfach Goch newydd gyhoeddi llyfryn o farddoniaeth gan drigolion y cwm. Mae llawer o'r cerddi yn son am hanes y cwm a digwyddiadau yn y cwm. Gellir cael copiau o'r llyfryn o'r Ganolfan Gymunedol yn Nhreifan.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30yb oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Tachwedd 2015:
1 Dr. Hefin Jones
8 Y Parchedig Dafydd Owen - Oedfa Gymun
15 Oedfa dan ofal Alwyn Harding Jones
22 Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched
29 Y Parchedig Hywel Wyn Richards

Mis Rhagfyr 2015:
6 Naw Llith a Charol (5:00yp)
13 Ymweld a Chartre'r Henoed (10:30yb)
Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Cynwil Williams (5:00yp)
20 Gwasanaeth Nadolig y Plant
25 Gwasanaeth Bore'r Nadolig (10:00yb)
27 Oedfa i'w threfnu

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei gollfarnu'n aml iawn am fod yn ddim mwy na siop siarad difflach di-ddim am bethau nad ydynt o fawr bwys i drigolion yr hen wlad 'ma. Mae'n siwr y gellid cyfeirio yr un awgrym at amryw o sefydliadau tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig! Yn lle felly y buasech yn gosod "Dadl Fer ar Ddyfodol Adeiladau Capeli yng Nghymru"?

Dyna yn wir oedd testun dadl ar gais Mike Hedges AC (Llafur - Dwyrain Abertawe) ychydig yn ôl. Datganodd ddiddordeb, gyda llaw, fel aelod yng Nghapel Seion, Treforus.

Canolbwyntio ar gapeli'r Anghydffurfwyr a wnaeth yn y ddadl, a hynny'n benodol oherwydd diffyg amser. Yn ei anerchiad agoriadol cyfeiriodd at ddirywiad cyson a pharhaol dau draddodiad mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, sef y traddodiad o fynychu'r capel a'r dafarn.

Cyfeiriodd at gapeli o faint sylweddol yn ei etholaeth a adeiladwyd ar gyfer 1000 a mwy o bobl a oedd bellach yn gartref i 10 a llai o gynulleidfa. Capeli a adeiladwyd yn wreiddiol oherwydd galw ysbrydol cynyddol y gymdogaeth, ac oherwydd nad oedd y capeli gwreiddiol yn ddigon o faint i'r galw hwnnw. Dyma, yn ôl yr Aelod Cynulliad, oedd curiad calon y gymdeithas – pam a sut y dirywiodd y fath draddodiad dros y ganrif a aeth heibio, ac yn fwy penodol beth a ddaeth / ddaw o'r adeiladau arbennig yma, sydd, yn amlach na pheidio mewn safleoedd amlwg yn ein trefi a'n pentrefi?

"Cawsom y capeli yma yn rhodd gan ein rhieni, ond nid yw ein plant ni yn dymuno eu derbyn yn rhodd gennym ni" medd un diacon wrtho.

"Mae'r capeli yma yn rhan bwysig o'n treftadaeth ni fel Cymry, mae amryw o werth pensaerniol" meddai, "ond mae'n amlwg fod gor-ddarpariaeth o ran adeiladau i gydfynd a'r galw crefyddol sydd yng Nghymru y dyddiau yma."

Pan mae cynulleidfa yn lleihau i'r fath nifer na allant mwyach gynnal yr achos, yna dirywio a wna'r adeilad ei hun yn gyflym iawn. Mewn achosion o'r fath dylid eu troi yn adnoddau cymdeithasol.

Cyfeiria at barodrwydd Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth dan nawdd "Cynllun Lleoedd Addoli Rhestredig" ac hefyd "rhaglen darpariaeth a digwyddiadau yn y gymuned". Cyfeiria yn ogystal at CADW a'r Loteri Genedlaethol (Treftadaeth) fel ffynnonellau eraill a allai fod o gymorth.

Ond yn y cyswllt yma mae wedyn yn cymharu'r sefyllfa yn yr Alban, ac yn benodol at waith y Cyngor Ymgynghorol ar Amgylchfyd Hanesyddol yr Alban, yn cynnig awgrymiadau a chymorth i leihau ac addasu nifer o adeiladau crefyddol mewn ffordd gymwys a chytbwys.

Galwodd ar i drefn debyg ("a strategy for ecclesiastical heritage") gael ei mabwysiadu yng Nghymru, ac y dylai'r wladwriaeth fod yn barod i gamu i mewn pan mae safleodd o ddiddordeb hanesyddol mewn perygl. Cyplysa hefyd y mynwentydd hanesyddol sydd ynglwm wrth nifer o'r adeiladau yma.

Mae angen arian ar gyfer cynnal a chadw, mae angen asesiad o gyflwr ein hadeiladau, mae angen cyfarfod rheolaidd i gymeryd gor-olwg ar y gofynion, mae angen canllawiau ar gyfer newid defnydd adeilad o le o addoliad i ddefnydd amgen.

Ar ddiwedd ei anerchiad awgryma fod y capeli Anghydffurfiol yn llawer pwysicach i'n treftadaeth ni fel Cymru na rhai o 'r Cestyll Normanaidd! "Ceiniogau prin y Cymry a dalodd am adeiladu'r capeli, meddai, nid y ni adeiladodd y cestyll, ond pobl o gefndir dieithr a'u gorfododd arnom. Ond eto mae'n haws cael arian i'w cynnal hwy na'n capeli!"

Siaradodd Darren Millar AC (Ceidwadwr), Peter Black AC (Democrat Rhyddfrydol), Keith Davies AC (Llafur) a Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) hefyd yn ystod y ddadl.

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwin Hart AC, a roddodd glo ar y ddadl, a chadarhaodd fod CADW eisioes yn datblygu cynllun gweithredol strategol er sicrhau fod yr adeiladau yma yn gallu parhau i fod o fudd cymdeithasol, ariannol ac amgylchyddol i'r cymunedau ac i Gymru. Byddai o gymorth yn ogystal i Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gwybodaeth ynglyn a cynnal a chadw, rheolaeth a defnydd yn y dyfodol. Y cam cyntaf serch hynny fyddai darparu gwybodaeth a fyddai yn egluro gwerth ac arbenigrwydd yr adeiladau o fewn y cymunedau. Dilyniant pellach fyddai cadwraeth a gofal dros yr adeiladau crefyddol, gan hyrwyddo unrhyw newid er lles dros y tymor hir.

Y trydydd cam fyddai ymwneud â'r cyhoedd a'u cyfraniad hwythau wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

Hefo tafod yn ei boch, o gofio'r cyfeiriad blaenorol at y cestyll Normanaidd, awgrymodd y Gweinidog y dylid cofio mai'r Eglwys Gatholig oedd yma gyntaf nid Anghydffurfiaeth!

Serch y drafodaeth yn y Senedd ym Mae Caerdydd, a da o beth oedd rhoi sylw i'r mater, mae geiriau Vivian Jones yn Rhagair ei gyfrol ddiweddaraf "Symyd Ymlaen" yn werth eu cofio o hyd yn y cyd-destun yma : - "Gydol y llyfr, yr wyf wedi osgoi'r gair capel, a defnyddio'r gair eglwys, pan mai cyfeirio at y gymuned Gristnogol y byddaf. Gair am adeilad yw capel yn y bon, eglwys yw'r gair am y gymuned."

oooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Merched y Wawr - Cangen y Garth

Nos Fercher, Hydref yr unfed ar hugain daeth criw da ynghŷd yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth i wrando ar Caroline Martin yn trafod 'Meddwlgarwch'.

Pwnc dieithr i rai, cyfarwydd i eraill. Cawsom gyflwyniad hyfryd gan Caroline i'r pwnc diddorol yma a chyfle i gymryd rhan mewn nifer o ymarferion - llesol i'r enaid. Gellir dysgu mwy trwy ymweld â gwefan Caroline www.llif-mindfulness-com. Diolch Caroline am ein tywys i faes reit newydd.

Mis nesa - ni fydd trefnwyr Noson Cadwgan! Bydd y **Dr Walter Ariel Brooks** yn cynnal noson o dan y teitl **'Patagonia 150'**. Dewch yn llu i'r **Ganolfan, Efail Isaf,** nos **Fercher, Tachwedd 18fed** am **8 yr hwyr** i gwrdd â'r Archentwr ifanc ac i wrando ar ei hanesion!

Cyfarfod Blynyddol Menter Caerdydd

7yh Nos Iau, Tachwedd 26 yn Elgano, 58 Heol yr Eglwys Gadeiriol

Cyflwyniad gan Sian Lewis, Prif Weithredwr Menter Caerdydd

Siaradwr gwadd: Elfed Roberts Prifweithredwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018)

Mae Barn Pobl y Ddinas yn bwysig i Ni. Dewch yn Llu

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Dewi Hughes a'r teulu wedi marwolaeth Tad Dewi ddiwedd mis Awst. Bu Mr. Lewis Hughes farw'n sydyn ond yn dawel yn 90 mlwydd oed.

Myra Thomas
Trist yw cofnodi marwolaeth Myra Thomas, Pantbach, yn ysbyty'r Waun ddiwedd mis Medi.Yn ôl dymuniad Myra cynhaliwyd dathliad o'i bywyd yn Neuadd y Pentre, 'Doedd neb i wisgo du a gofynnwyd i bawb ddod gyda gwên a dyna a ddigwyddodd wrth i aelodau o'r teulu a ffrindiau sôn yn gynnes am fywyd llawn a llawen Myra. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd y pentre' gan chware rhan flaenllaw yn y Guides, Sefydliad y Merched a'r Clwb Bowlio. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Howard, Richard, Andrew a Betsan a'u teuluoedd.

Y Kings Arms
Braf oedd gweld Y Kings yn cael ei enwi ymhlith y goreuon am ginio Sul gan ddarllenwyr y cylchgrawn " Observer Food Monthly" fis Hydref.

Croeso
Croeso mawr i Bentyrch i Huw ac Angharad Williams sydd wedi symud i fyw i Benmaes ychydig fisoedd yn ôl. Mae Huw yn dod yn wreiddiol o San Clêr ac Angharad o Aberdaugleddau. Dymunwn bob hapusrwydd i chi'ch dau yn eich cartref newydd.

Noson Gwis Clwb y Dwrlyn
Roedd waliau ystafell ddigwyddiadau Clwb Rygbi Pentyrch yn tasgu o chwys nos Iau Hydref y 15ed. Na, nid y timau yn chwarae gartref na hyd yn oed tyrfa gwylwyr Cwpan Rygbi'r Byd oedd yn gyfrifol am y chwysu ond yn hytrach gornest cwis Clwb y Dwrlyn. Do fe ddaeth dros ddeg ar hugain o aelodau at ei gilydd i gael prawf ymenyddol gan y Meistr a'r Feistres Gwisiau Gary a Karina Samuel. Mawr oedd y tensiwn yn yr ystafell wrth i Gary fynd o gwmpas efo bocs lle roedd pawb ar hap yn dewis rhif eu bwrdd i wneud yn siwr fod y brêns yn cael eu gwasgaru! Roedd yna wyth o fyrddau yn cystadlu yn frwd a phawb yn cadw'u gafael tan y funud olaf yn y cardiau lluniau oedd i fod i gael eu trosglwyddo i'r bwrdd agosaf ar gyfer y rownd nesaf. Bwrdd un - Morwen, Geraint Huws, Carol ac Emlyn - a orfu i fanllefau o gymeradwyaeth. Peidiwch a dweud wrth neb ond yr olaf yn y ras oedd bwrdd chwech oedd yn cynnwys Llywydd y Clwb rygbi a Chadeirydd Clwb y Dwrlyn! Nos Iau Tachwedd y 12ed fydd y cyfarfod nesaf gyda Guto Hari yn ein hannerch.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Llinach Bowen yn ddiogel!
Croeso i'r byd Rhys Bowen! Llongyfarchiadau mawr i Rhodri ac Ali ei wraig ar enedigaeth Rhys - hogyn nobl - ddaeth i'r byd ar y deuddegfed o fis Medi yn pwyso 9 pwys a 12 owns! Mae'n frawd bach i Llŷr sy bellach yn ddwy ac yn ŵyr i'r Dr. Delme Bowen. Yn ardal Grangetown, Caerdydd mae cartre'r teulu bach. Pob bendith! Ac fel y dywaid ei Ddat-cu balch - 'er mwyn Cymru'!

Dyrchafiad i Gin!
Llongyfarchiadau mawr i Gin (Pen y bryn gynt!) Harvey ar ei swydd newydd! Cafodd ei phenodi yn ddiweddar i swydd physiotherapydd clinigol yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd fydd yn arbenigo mewn pengliniau! Jyst y person 'dw i eisiau dod i'w hadnabod yn well! Da iawn ti, Gin - rwyt ti wedi gweithio'n galed tra'n magu'r ddau fach Seve a Freddie sy bellach (bron) yn Ysgol y Wern, Caerdydd. Mwynha dy sialens newydd!

Croeso i'r Creigiau ... Mr Jones ...
... a'r teulu bach! Braf cael croesawu Wyn Jones, Mari, ei wraig, Efa Angharad a Llew Dafydd - y plantos - i'r pentre! Symudon nhw yma o Efail Isa jyst cyn diwedd gwyliau'r haf a bellach maent wedi hen ymgartrefu yma. Teulu gweithgar, teulu talentog - caffaeliad i unrhyw bentre! Croeso cynnes iawn - y Jonesiaid!

Caffi'r Berllan/Orchard Café
Llongyfarchiadau mawr i Dawn Cugno a'i thîm hynod ddawnus ar ennill gwobr arbennig yn ddiweddar a hwythau ond wedi bod ar agor ers yr haf, 2013. Enillodd Caffi'r Berllan, Heol y Parc, Radur y teitl Siop Goffi Orau'r De dan nawdd Eco De Cymru. Mae wir yn lle arbennig iawn yn cynnig te a choffi Masnach Deg - prydau bwyd iach sy'n defnyddio cynhwysion organig, lleol, ac yn gwneud y teisennau mwya bendigedig gan osgoi defnyddio siwgwr i felysu ond yn hytrach melysder naturiol ffrwythau a mêl. Mae Dawn yn byw yn Creigiau ac er nad oedd ganddi unrhyw brofiad yn y maes gweini bwyd na rhedeg caffi mae yn angerddol am yr hyn mae'n ei werthu ac yn baratoi. Yno'n ei chynorthwyo mae 'na gariad o chef - yr holl ffordd o Blaenffos, ger Crymych - sef Osian Jones sy wrth ei fodd yn derbyn ymateb a sylwadau ei gwsmeriaid ar ei greadigaethau yn y gegin! Ewch yno ar bob cyfrif i brofi drosoch eich hunan. Pob llwyddiant i'r dyfodol Dawn a'r tîm!

YSGOL LLANHARI

(Rhagor tudalen 14)

Ysgol Arweiniol
Mae'r adran gynradd wedi ei dewis gan Gonsortiwm CSC i fod yn Ysgol Arweiniol yn y Cyfnod Sylfaen. Nod cynllun Cynghrair y Cyfnod Sylfaen yw rhannu arfer dda, gydag ysgolion eraill yn cael y cyfle i ymweld â'r adran yn Ysgol Llanhari. Fe fydd hefyd staff o'r adran yn cynnig arweiniad i athrawon Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion eraill yn y Consortiwm. Eisioes cynhaliwyd dau gwrs – un cyfrwng Cymraeg ac un Saesneg gyda'r ffocws ar gynllunio tynn er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng meithrin sgiliau a dysgu trwy chwarae o fewn y Cyfnod Sylfaen. Rhoddwyd cyfle i athrawon Cyfnod Sylfaen o ysgolion eraill arsylwi ar y sesiynau ac i drafod gyda'r staff a'r disgyblion. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael y fath sylw! Roedd yr adborth i'r ddau gwrs yn wych ac ymfalchiwn bod cydnabyddiaeth gan y Consortiwm i'r holl arfer dda sydd o fewn y Cyfnod Sylfaen yma. Edrychwn ymlaen nawr at groesawu mwy o ymwelwyr i ddau gwrs arall yn ystod Tymor y Gwanwyn.

Pwyllgorau Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017

Ydych chi'n medru ein helpu i godi arian ac i gyrraedd cyfanswm y gronfa leol, sef £346,900?

Dyma gyfle i ddod ynghyd mewn nosweithiau cwis, gigs, bore coffi neu beth bynnag a fynnoch i godi arian. Mae sawl Pwyllgor Apêl eisioes wedi'u sefydlu ond yn edrych am ragor o bobl. Mae ardaloedd eraill ar fin sefydlu ac yn edrych am wirfoddolwyr brwd!

Mae'r ardaloedd wedi'u rhannu fel y ganlyn:

Pontypridd a Ffynnon Taf
Llanilltud Fawr
Llantrisant, Pontyclun a Miskin
Llanharan
Llanhari
Tonyrefail a Gilfach Goch

Felly beth am gysylltu â Jordan Morgan Hughes i ganfod mwy ac i fod yn rhan o Urdd 2017?! Jordan@urdd.org 02920 635685.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Ysgol Feithrin Sardis
Mae Cylch Meithrin Sêr Sardis yn mynd o nerth i nerth. Erbyn hyn mae 10 o blant yn mynychu'r cylch yn rheolaidd ac mae llefydd yno i fwy o blant dwy oed. Bob bore Llun mae'r Cylch yn cynnig sesiwn Ti a Fi. Mae'r rhai bach wrth eu bodd yn canu ac yn gwrando ar storiâu gydag Ellie a Zoe. Dewch i ymweld â'r Cylch newydd hon. Rhowch y cyfle gorau i'ch plentyn i chwarae a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Merched y Wawr
Fe fydd y Gangen yn cwrdd nos Iau, Tachwedd 12fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis. Noson i greu addurniadau Nadolig.

Ym Mis Rhagfyr fe ddaw Lis West i arddangos addurno cacennau.(nos Iau, Rhagfyr 10fed). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Eisteddfod yr Urdd
Mae Pwyllgor Apêl Pontypridd a Ffynnon Taf ar gyfer Eisteddfod 2017 ym Mhenybont - sy 'n cynnwys Taf Elai yn awyddus iawn i groesawu aelodau newydd i ymuno a nhw. Mae'n rhaid codi £22,000. Ni fydd modd cyrraedd y targed yma oni bai i nifer sylweddol o garedigion Yr Urdd yn yr ardal gytuno i helpu. A wnewch chi ystyried ymuno a Chlwb 200 er mwyn codi swm o arian yn fisol? Oes syniadau gyda chi am weithgareddau bach neu mawr?

Dewch i gefnogi'r pwyllgorau apêl leol cyn Nadolig. Fe fydd cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth yn Eglwys Sant Catherine, Pontypridd nos Sadwrn, Rhagfyr 19eg am 7.00. gwesteion arbennig - Côr y Cwm

Tocynnau gan Delyth Blainey a Jayne Rees neu aelodau'r ddau gor.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 3ydd am 7.00 yng Nghlwb y Bont - Cadeirydd -Martyn Geraint
Trysorydd- Alun Rees

Clwb llyfrau
Byddwn yn trafod dwy gyfrol Saesneg mis yma sef 'Elizabeth is Missing' gan Emma Healey a 'Mr. Mac and Me' gan Esther Freud.

Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Fawrth 17eg o Dachwedd am 8.00p.m.

Y llyfrau Cymraeg dan sylw mis Rhagfyr yw 'Stad' gan Guto Dafydd a 'Dwy Farwolaeth Endaf Rowlands ' gan Tony Bianchi. Enillydd y Fedal Lenyddiaeth Eisteddfod Meifod eleni.

Y Lido
Mae llwyddiant cychwynnol y pwll nofio ysblennydd ym Mharc Ynysangharad wedi denu cryn gyhoeddusrwydd ac yn gallu brolio bron i 20,000 o ymwelwyr yn ystod cyfnod byr. Fe fydd ysgrifennydd y golofn hon yn falch o gael hoe o'r holl gyhoeddusrwydd gafodd hi hefyd fel y 10,000 ymwelydd!! Ni fydd nofio nawr i'r cyhoedd tan gwanwyn nesa.

Llongyfarchiadau
Mae dathliad dwbl yng nghartref yr Ebbsworth's yn Parc Prospect. Mae Siân a Mike wedi dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar a mis yma mae Siân yn dathlu pen blwydd arbennig!

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd
Rydym wedi anfon cant o lythyrau at fusnesau yn Nhonyrefail a Gilfach Goch yn gofyn am gyfraniadau tuag at ein targed ariannol o £10,000. Rydym wedi gofyn yn benodol i fusnesau noddi tlws sy'n costio £100. Bydd enw'r busnes yn ymddangos ar y tlws. Os oes gyda chi, darllenwyr Tafod Elái yn Nhonyrefail, gysylltiad ag unrhyw fusnesau, a fyddech cystal â gofyn ar ein rhan. Mae unigolion hefyd yn gallu noddi tlysau felly os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch â fi a gallaf roi gwybod i chi pa dlysau mae'n bosib eu noddi. Diolch!

Cofiwch y Noson Pysgod a Sglods a Chwis - 7yh, 6 Tachwedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Tocynnau 01443 671577.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Cyfarfod Cyffredinol
Dewch i glywed am waith Menter Iaith RhCT

7.30 dydd Mercher 11 Tachwedd yn Festri Capel Siloa, Aberdâr

Croeso mawr i bawb

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Cymru a Copenhagen - Cysylltiadau Cymreig y Ffisegydd Niels Bohr

Nos Lun 19eg o Hydref 2015 cawsom sgwrs ddiddorol dros ben gan Rowland Wynne am ffrwyth ei ymchwil ar wyliau diweddar i Ddenmarc. Aeth e a'r mathemategydd Gareth Ffowc Roberts i Copenhagen a threulio diwrnod yn archif y Ffisegydd Niels Bohr (1885-1962) gyda'r bwriad o ddysgu mwy am ei gysylltiadau Cymreig. Mae Niels Bohr yn cael ei gofio am ei waith arloesol yn creu model mathemategol o'r atom oedd yn gam enfawr ymlaen yn ein dealltwriaeth o sut mae'r bydysawd yn gweithio. Roedd Bohr yn un o gwir fawrion Ffiseg ac mae ei waith yn rhan hanfodol o gwrs Ffiseg pob prifysgol.

Cysylltiad Cymreig cyntaf Rowland oedd Edwin Augustine Owen (1887–1973) o Flaenau Ffestiniog oedd yn gyfaill i Bohr yn labordy Cavendish yng Nghaergrawnt ac mae nifer o'i lythyrau at Bohr yn yr archif. Aeth Owen ymlaen i fod yn Athro ym Mhrifysgol Bangor lle sefydlodd grwp ymchwil arloesol yn arbenigo ar ffiseg metalau. Mae ei lythyrau yn cynnwys sawl gwahoddiad i Bohr fynd gydag ef i Ogledd Cymru, ac yn wir fe aeth o leiaf unwaith.

Yna aeth Rowland ymlaen i sôn am lythyrau William Ewart Williams (1984-1966) o Rhostryfan ger Caernarfon. Cyfarfu a Bohr tra roedd yn fyfyriwr ym Manceinion ac er i'w meysydd ymchwil ymbellhau wrth Williams symud i'r UDA a gweithio i nifer o gwmniau a dod yn ddyfeisiwr cyfoethog, roeddent yn llythyru yn gyson. Yn olaf, soniodd Rowland am lythyrau Evan James Williams (1903-45) o Cwmsychbant yng Ngheredigion a ddaeth yn enwog am ddarogan bodolaeth gronyn is-atomig y pion ac am ei gyfraniad enfawr i'r frwydr yn erbyn llongau tanfor yr Almaen yn yr Ail Ryfel Byd.

Roedd Williams yn ffisegydd gwych gan ennill dau ddoethuriaeth o Fanceinion a Chaergrawnt cyn dod yn Athro Ffiseg yn Aberystwyth yn 1938. Treuliodd flwyddyn yn Copenhagen gyda Bohr ym 1933 a bu mewn cysylltiad cyson a'r ffisegydd enwog. Dengys hyn bod gan Gymru fach wyddonwyr o'r radd flaenaf oedd yn cydweithio gyda mawrion y byd gwyddonol yn ystod y cyfnod cyffrous lle gwnaed nifer o ddarganfyddiadau chwyldroadol. Diolchwn o galon i Rowland a'i gyfaill Gareth am eu hymchwil ac am agor ein llygaid i gysylltiadau Cymreig Neil Bohr.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis:
Awen Mai Evans

Cyfarfod Merched y Wawr: Tonysguboriau
Roedd ein cyfarfod ym mis Hydref wythnos yn gynharach na'r arfer, ac roedd rheswm da am hynny. Ar nos Fercher Hydref 14, daethom at ein gilydd i gefnogi diwrnod 'Shwmae'. Mae nifer o'n haelodau yn ddysgwyr ac fe gawsom gwmni sawl un arall yn ein cyfarfod ynghyd â Helen Prosser a Gill Griffiths. Bwriad y noson oedd rhoi cyfle i bawb sgwrsio trwy gyflwyno a siarad am eitem o'u dewis oedd ag arwyddocâd personol iddynt. Cawsom amrywiaeth o eitemau, pob un gyda hanes diddorol, gan gynnwys blychau snisin, doliau llestr cerdd, siôl o Bacistan, dysgl amlbwrpas o Ethiopia wedi'i wneud o ryw fath o bwmpen ac eitemau o waith brodwaith cain. Mwynhaodd pawb ac fe rannwyd llawer o hanes llafar wrth sgwrsio yn y Gymraeg.

Bydd Beryl Rowley yn dangos ei dawn ar waith llaw wrth roi syniadau ar gyfer y Nadolig yn ein cyfarfod ar Dachwedd 18fed.

Adeiladu Tai
Mae sôn y gellid gweld tai yn cael eu codi mewn datblygiad newydd yn y Groes-faen. Mae cwmni adeiladu/ datblygu wedi dangos diddordeb ac wedi bod yn archwilio a mesur dau gae i'r Gorllewin o fferm Dan y Bryn (Siop y Pentre) ar briffordd yr A4119. Pan godwyd y cwestiwn gyda Swyddog Datblygu'r Sir, bu'n ddigon gonest i ddweud bod cwmni datblygu wedi gwneud ymholiadau blaenorol ynglŷn â'r tir. Ymddengys mai cwmni Persimmon ydy'r rhain. Mae'r sefyllfa yn un cymhleth a chymysglyd. Yng Nghynllun Datblygu Rhondda Cynon Taf (2006 - 2021) disgrifir y Groes-faen fel lle anaddas i ddatblygu, fel y saif pethau. Mae'n bentref heb gyfleusterau ac adnoddau cymwys i dyfu a datblygu. Ond mae'n ofynnol i RCT ail-edrych ar ôl tymor o amser ar ei Gynllun Datblygu, ei ddiwygio a'i newid efallai yn ôl y galw. Mae RCT ar hyn o bryd yn methu cyrraedd y targed sy wedi ei osod arno sef i sicrhau tir ar gyfer datblygu am bum mlynedd i'r dyfodol. Petai cais ffurfiol yn cael ei wneud a'i wrthod a bod y mater yn mynd at apêl mae'n bosib y byddai pwysau ar yr Arolygwr i roi ateb cadarnhaol i'r Datblygwr.

Ond yn ddigon sicr, nid yw'r safle yn un ffafriol gan ei fod yn ffinio ffordd sydd eisoes yn rhy brysur ac sy'n debygol o fynd yn brysurach fyth.

Cofebion
Mae cais wedi ei wneud i godi dwy gofeb mewn man cyhoeddus (Y tir glas yng nghanol y pentref). Cofebion ydyn nhw i gofio am ddau ŵr ifanc o'r pentref a gollodd eu bywydau yn yr ymladd yn Ffrainc a Gwlad Belg yn yr Ail Rhyfel Byd. Fe osodwyd dwy gofeb y tu mewn i Gapel y Babell flynyddoedd yn ôl. Gan fod y capel bellach wedi ei werthu, gofynnodd y Parch Bruce Nelmes (Cyn-weinidog ar gapeli'r Babell a Hope ym Mhontyclun) am ganiatâd Bwrdd Eiddo yr Eglwys Bresbyteraidd i'w symud. Maent yn coffau dau filwr yn y *Welsh Guards* sef Corporal William Henry Morgan o fferm Llwynpenna a fu farw yn 28 mlwydd oed yn Berringen, Gwlad Belg ym mis Medi 1944 a Lieutenant Corporal David Llewelyn (Dai) a fu farw a anafiadau difrifol yn Bastieres, Ffrainc ar 12fed o Awst 1944 ac yntau'n 24 mlwydd oed.
Mae'r ddwy gofeb yn cael eu cadw'n ddiogel ar hyn o bryd a'r gobaith yw gwneud cais i'r Gronfa Loteri Cenedlaethol i greu gwaith carreg teilwng i ddal y ddwy gofeb.

Hyd yn hyn, methwyd a dod o hyd i enwau'r ddau ddyn ar unrhyw Feini Cofeb eraill yn yr ardal. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth gan ein ddarllenwyr.

Gwyn Cadnant (Cynghorydd Cymunedol Groes-faen)

Noson yng Nghlwb Rygbi Pontyclun
Daeth criw o dros 100 i glwb rygbi Pontyclun i glywed rhai o sêr mwyaf y byd rygbi yn trafod gobeithion Cymru ar gyfer cwpan y byd. Yno roedd Gareth Edwards gyda Dafydd James, cyn-asgellwr Cymru; Justin Thomas, cyn-gefnwr Cymru; a Gruff Rees, hyfforddwr cefnwyr y Gweilch. Yn cyflwyno'r noson roedd Eleri Sion. Cafwyd cryn hwyl gyda'r trafod a chafwyd cyfle i'r gynulleidfa holi'r panel. Codwyd yn agos at £1,300. Diolch i bawb gefnogodd a diolch hefyd i'r panel.

Golchi Ceir
Mae'r pwyllgor apêl nawr wrthi yn trefnu digwyddiadau eraill. Bydd Golchi Ceir ar fore Sadwrn Hydref 31 yng ngorsaf dân Pontyclun. Dewch â'r car yno i'w olchi ym Mhontyclun, fore Sadwrn Hydref 31, rhwng 9:30 a 12.

Car glân a chyfle i gwrdd â Mr Urdd.
Yr holl elw at Eisteddfod yr Urdd 2017
Pwyllgor Apêl Llantrisant, Meisgyn, Pontyclun.

Helfa Drysor
Fe fydd helfa drysor brynhawn Sul, Tachwedd 15fed. Hwyl i'r teulu oll; dim ond £5 y car. Cychwyn tu fas i YGGG Llantrisant rhwng 2y.p. a 3y.p. Dewch yn llu.

Cyngerdd Cofio
Cynhelir cyngerdd i gofio am y rhai a fu farw yn y ddau rhyfel byd yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant nos Wener 13eg o Dachwedd am 7 yr hwyr. £5 yw pris y tocynnau. Yn cymryd rhan bydd: Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ysgol Gynradd Tonysguboriau
Ysgol Gynradd Penygawsi
Ysgol Gyfun y Pant
Brownies Llantrisant
Côr Meibion Llantrisant
Côr Merched Llantrisant
Band Pres Rhondda Cynon Taf
Bydd yr elw yn mynd tuag at gofeb newydd.

Gohebydd mis nesaf: Dafydd Roberts

TONTEG

Gohebydd Lleol:
Gillian Williams

Dathlu Priodas
Daeth dau deulu a ffrindiau o Gaerdydd, Llanuwchlyn, Tonteg a Sir Benfro ynghyd ddydd Sadwrn Hydref 17 i ddathlu priodas Elinor ac Alun, mab Eleri a Bryn Roberts gynt o Donteg. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng nghapel Harmoni Pencaer, Sir Benfro, bro genedigol Elinor a chartref y cwpwl ifanc. Dymuniadau gorau iddynt.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn a Sian (Pens) Jones a'r teulu ar golli mam Sian ddydd Sul Tachwedd y deunawfed. Yn naw deg tri oed, bu'n fregus ei hiechyd ers tro. Bydd bwlch mawr ar ei hol a meddyliwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Cyngerdd Nadolig

Côr Godre'r Garth
Gwesteion arbennig -
Côr y Cwm

yn Eglwys Sant Catherine, Pontypridd
Nos Sadwrn, Rhagfyr 19eg am 7.00yh

Tocynnau gan Delyth Blainey a Jayne Rees neu aelodau'r ddau gôr.

Tuag at bwyllgorau apêl leol Eisteddfod yr Urdd 2017

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr
i gyrraedd erbyn
27 Tachwedd 2015

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Nos Wener Tachwedd 6ed
Y Ganolfan, Efail Isaf
7.15
Sgwrs gan
Dafydd Hywel

Dewch yn llu

Cymdeithas Hanes Plaid Cymru

Noson i gofio cyfraniad yr Athro Griffith John Williams a'i wraig, Elizabeth.

Bydd aelodau o'u teuluoedd – Elenid Jones ac Emrys Roberts – yn rhannu eu hatgofion amdanynt, a bydd yr Athro E. Wyn James yn rhoi sgwrs ar y testun, "Gweld gwlad fawr yn ymagor": breuddwyd cyffrous G. J. Williams a Saunders Lewis.

Nos Iau, 3 Rhagfyr
am 7.30pm.
Yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Tinsel, Tlysau a Thrimins

Noson siopa Nadoligaidd-cardiau, llyfrau, addurniadau, anrhegion, gemwaith a llawer mwy!

Nos Iau 3ydd o Ragfyr 2015
6:30yh
Canolfan Gydol Oes Garth Olwg
£3 y tocyn (sy'n cynnwys diod a mins pei)
I godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd 2017
Cysylltwch ag Angharad 07989578776 am docyn

CYLCH CADWGAN

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Dr Walter Ariel Brooks
'Patagonia 150'

Nos Fercher, Tachwedd 18fed
8yh Y Ganolfan
Efail Isaf

Dewch â ffrind!
Edrychwn ymlaen at eich cwmni!

Manylion: 029 20890770

CLWB Y DWRLYN

Guto Hari
'O'r Tâf i'r Tafwys'

8.00yh Nos Iau
Tachwedd 12fed
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Manylion: 029 20890040

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

Beryl Rowley
Paratoi am y Nadolig

7.30yh, Tachwedd 18fed
Y Pafiliwn, Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

(Lluniau tudlaen 4)

Côr yr ysgol
Ar Hydref yr 22ain fe aeth criw o blant Blynyddoedd 5 a 6 ar wahoddiad Llywodraeth Cymru, i ganu o flaen penaethiaid o bob cwr o Gymru, a hynny yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Fe ganodd y plant yn wych – da iawn nhw.

Plannu bylbiau
Mae disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi bod wrthi'n brysur yn plannu bylbiau ar gyfer y Gwanwyn. Byddant yn arsylwi'n fanwl arnynt dros y misoedd nesaf ac yn cofnodi'r tymheredd a'r glawiad yn ddyddiol. Mae'r prosiect wedi'i drefnu gan Ymddiriedolaeth Edina mewn cydweithrediad gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac mae ysgolion dros y wlad i gyd yn cymryd rhan.

Gymnasteg
Llongyfarchiadau i Lili Hopkins, Olivia Williams a Carys Davies ar gystadlu yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn ddiweddar. Llwyddodd Lili i ennill yr ail wobr mewn cystadleuaeth unigol ac fe enillodd Olivia a Lili y wobr gyntaf am waith pâr. Pob lwc iddynt yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Chwefror a diolch yn fawr i Mrs Williams (mam Olivia) am eu hyfforddi.

Dawnsio
Daeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 o ysgol yng Nghaerdydd i wneud gweithdy dawns gyda phlant Dosbarth 8 fel rhan o brosiect ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn arbrofi a pherfformio.

Golff
Daeth Rachel Lewis sy'n athrawes golff yng Ngwesty'r Fro i gynnal sesiwn gyda phlant dosbarthiadau 6, 7 ac 8. Roeddynt wedi mwynhau ac rwy'n siwr bydd llawer ohonynt yn awyddus i ddechrau eu gwersi golff eu hunain yn fuan.

Rygbi
Ar y 30ain o Fedi fe aeth tîm rygbi'r ysgol i gymryd rhan mewn gŵyl rygbi ar gaeau Pontyclun. Yna ar yr 21ain o Hydref, fe aeth tîm i gystadlu yng Nghystadleuaeth Rygbi Carwyn James. Llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd derfynol a fydd yn cael ei chynnal yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

"Super Attender"
Cafwyd gwasanaeth arbennig yng nghwmni'r "Super Attender" ddydd Mercher y 14eg o Hydref. Pwrpas y gwasanaeth oedd annog pawb i ddod i'r ysgol yn brydlon pob dydd, heblaw pan maen nhw'n sâl wrth gwrs!

Diwrnod T Llew Jones
Cawsom ddiwrnod arbennig iawn yn yr ysgol ar y nawfed o Hydref, er mwyn dathlu canmlwyddiant geni T Llew Jones. Cafodd pawb gyfle i wisgo fel rhai o gymeriadau enwog yr awdur ac i wneud amrywiaeth o weithgareddau'n seiliedig ar ei waith.

Croesair Col

C
CROESAIR
L



Ar Draws
7. Y weithred o ymwrthod â bwyd am gyfnod (6)
8. Sialc llunio (6)
10. Noddwr (7)
12. Benywaidd carw (5)
13. Diwethaf (4)
14. Anffawd (5)
18. Hyd yn oed (5)
19. Gwlybaniaeth o'r genau (4)
23. Haerllug (5)
24. Cenfigennus (7)
25. Taro metal ar hwn (6)
26. Tirioni (6)

I Lawr
1. Yn ymyl (7)
2. Toreithog (7)
3. Preswylfa (2)
4. Un sy'n hepgor (7)
5. Ffiaidd (5)
6. Poeni (5)
9. Gwraig brenin (9)
11. Murmur (2)
15. Cyfnos (7)
16. Peth diwerth (7)
17. Amlinelliad (7)
20. Surdoes (5)
21. Awydd (5)
22. Plygu gerbron (5)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 16 Tachwedd 2015

Atebion Hydref

C	Y	D	I	O	G		B	A	G	A	D	U
R		I			E		O		R		I	
Y	N	DD	I		N	O	D	W	Y	DD	E	S
N		O			E		I		M		L	
O		S	A	E	TH	N	O	D		C	W	C
D		R		N				I		O		Y
E	N	W	E	B	U		C	O	R	R	Y	N
B		Y		Y				E		O		E
U	R	DD		D	A	F	A	D	E	N		F
	E		A		R		D			B		I
LL	I	TH	R	I	G	F	A		C	L	U	N
	A		E		A		I			E		O
A	T	Y	N	N	U		N	E	R	TH	O	L

Ysgol Dolau

Lluniau Tudalen 13

Llangrannog
Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i wersyll yr Urdd Llangrannog unwaith eto fis Medi yma. Cawsant hwyl ar bob un o'r gweithgareddau ond uchafbwynt y penwythnos oedd yr hufen ia lawr ar y traeth. Tywydd bendigedig hefyd gydag ymddygiad rhagorol gan bob un o'r plant - gwych!

Bore Coffi Macmillan
Ddydd Gwener yr 2il o Hydref cynhaliodd Ysgol Dolau fore coffi i godi arian i'r elusen Macmillan. Mae'r elusen yn codi arian i gefnogi unigolion a'u teuluoedd sy'n byw gyda chanser. Roedd y staff wedi bod yn brysur yn coginio cacennau blasus ar gyfer yr achlysur. Mae nifer o'r rhieni wedi cefnogi'r bore coffi ac wedi rhoi'n garedig i'r elusen. Codwyd £157 ar y diwrnod ac roedd pawb wedi mwynhau paned, sgwrs a chacen! Diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi.

BBQ Y Feithrin
Nos Iau 24ain Medi, trefnodd yr CRhA 'Parti Croesawu' ar gyfer plant newydd y Feithrin a'u teuluoedd. Arhosodd hi'n sych a chafodd y parti ei chynnal mas ar iard y Feithrin. Noson hyfryd, yn cymdeithasu ac yn cwrdd â phobol newydd. Roedd y bwyd yn hyfryd hefyd, roedd tatŵs gliter, peintio wynebau a raffl. Noson lwyddiannus iawn.

Gwaith Maes
Cafodd ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 dywydd hyfryd ar gyfer eu teithiau ar hyd yr Afon Ogwr tymor yma. Fel rhan o'u thema, Drip Drop, aethant i darddle'r afon yn Nantymoel a dilynon nhw'r afon i'r aber yn Aber Ogwr. Cawsant ddiwrnodau hyfryd yn dysgu am yr afon ac yn edrych ar faint o lygredd/sbwriel oedd yna a phan gyrhaeddon nhw'r traeth, cawsant gyfle i wneud ychydig o waith celf yn arddull yr artist Cymreig, Tim Pugh.

Cyngor Ysgol
Llongyfarchiadau i'r Cyngor Ysgol sydd newydd ei ethol. Rydym yn falch o gyhoeddi eu rolau newydd ac yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur arall o godi arian: Cadeirydd – Hywel, Is-gadeirydd – Sarah, Ysgrifenyddes – Elin-Mair, Trysorydd – Bailey, Cyswllt Cyngor Chwaraeon – Lucas, Cyswllt Cyngor Eco – Benjamin, Cyfellion Chwarae – Elliott ac Oliver, Swyddog siop ffrwythau – Erin a Charlotte, Swyddog Y Wasg – Jack a Beth

Citiau Gwyddonol Techniquest
Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus i dreulio diwrnod yn arbrofi gyda deunyddiau gwahanol o Techniquest. Roedd y gweithgareddau yn glwm gyda'u thema yn edrych ar ddeunyddiau, ailgylchu a sbwriel.

Ymweliad Techniquest
Aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â Techniquest lawr yn y Bae ar gyfer gwaith yn ymwneud a'u thema ar drydan. Gwelson sioe arbennig yn ymwneud a thrydan ac yna amser i ymchwilio'r adnoddau gwahanol ar gael. Dysgon lawer am egni a sut i'w arbed.

Ymwelwyr o Mbale
Yn ystod hanner tymor yr Hydref, buodd Dolau yn ffodus iawn i gael ymwelydd o'u hysgol bartner yn Mbale, Uganda. Teithiodd Mr Fred Mubyua, prifathro Ysgol Gynradd Bukiga, yr holl ffordd i Lanharan i ddatblygu'r Bartneriaeth Pont a'r prosiect amgylchedd ymhellach. Yn ystod ei ymweliad, cymerodd ran mewn amrywiaeth o wersi, sesiynau holi ac ateb, a gwasanaethau ysgol. Roedd y plant yn llawn brwdfrydedd ac wedi cyfareddu gan ei storïau ac ymatebion. Syrthiodd Fred mewn cariad â Chymru ac ni allai ganmol ein gwlad, ysgol a phlant yn ddigon. Tra yng Nghymru, ymwelodd ag Ynys y Barri, Castell Caerffili, Saint Ffagan, Bae Caerdydd ac fe wnaeth hyd yn oed gael y cyfle i wylio gêm draddodiadol o rygbi!

Roedd ei ymweliad â Chymru yn nodi deng mlynedd ers i'r Bartneriaeth Pont gael ei sefydlu. Ymunodd ysgolion ar draws Rhondda Cynon Taf yn y dathliadau gyda chyngerdd yn y Miwni, noson gyflwyno yng nghlwb rygbi Pontypridd a gwasanaeth yn eglwys St Catherine. Mae Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Bukiga bellach yn edrych ymlaen at ddatblygu eu partneriaeth gynaliadwy ac yn parhau i adeiladu ar lwyddiant mawr eu gwaith.

Llysgenhadon Ifanc
Ddydd Iau 8 fed o Hydref cafodd Olivia Webb ac Adam Kinsey o Dosbarth 8 eu dewis fel Llysgenhadon Ifanc newydd yr ysgol. Aethant i Ganolfan Chwaraeon Ystrad i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau i annog arweinyddiaeth. Byddant yn awr yn bennaeth ar ein Cyngor Chwaraeon ysgol ac yn datblygu Chwaraeon Dolau.

Pêl-droed
Cafodd y tîm pêl-droed ei gêm gyntaf eleni yn ei cit newydd! Edrychodd y plant yn broffesiynol iawn wrth chwarae pedwar gem o 10 munud. Gwnaeth y tîm ddatblygu a gwella wrth i'r gemau fynd ymlaen. Roedd y gôl-geidwad yn arbennig o dda yn cadw'r tîm arall rhag sgorio - da iawn Kai! Chwaraeodd pawb yn dda gyda rhai yn sgorio 2 gol yr un!

Rygbi
Cafodd gêm gyntaf y tymor ei chwarae ym Mhontyclun. Chwaraeodd y tîm pedwar gem gyda'r tîm yn gwella pob tro. Roedd y gêm gyntaf i sawl aelod o'r tîm, felly da iawn nhw! Gwelwyd taclo arbennig o dda gyda'r bel yn cael ei gario'n llyfn ar draws y cae! Edrychwn ymlaen at y gystadleuaeth nesaf gyda'r tîm yn mynd o nerth i nerth ym mhob gêm.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Lluniau Tudalen 13

Wythnos Cadw Cymru'n Daclus
Bu disgyblion blwyddyn 6 yn helpu Cymunedau'n Gyntaf i gasglu sbwriel eto eleni fel rhan o ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus. Roeddynt yn ffodus iawn gan nad oedd yna lawer o sbwriel i'w gasglu yn yr aradal o amgylch yr ysgol!

Gweithdai ailgylchu
Roedd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi mwynhau eu gweithdai ar sbwriel a phwysigrwydd ailgylchu. Roedd yn ddiddorol iawn dysgu am yr effaith yr oedd gwahanol sbwriel yn ei gael ar yr amgylchedd. Diolch i Cymunedau'n Gyntaf am drefnu'r gweithdy.

Bore Coffi MacMillan
Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Llysgenhadon am drefnu bore coffi i rieni er budd elusen MacMillan. Casglwyd £318 ac roedd pawb wedi cael blas ar y teisennau oedd ar werth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ymweliad y Frigad Dân
Roedd blynyddoedd 1 a 2 wedi cyffroi pan ddaeth ddiffoddwyr tân o Donypandy i'r ysgol i sôn am eu gwaith ac i ddangos yr injan dân a'r offer y maent yn ei ddefnyddio yn eu gwaith. Yn anffodus roedd yn rhaid iddynt adael i fynd ar alwad brys - ac roedd pawb wedi synnu pa mor gyflym roedd y ddiffoddwyr wedi ymateb i'r alwad!

Pêl-Droed Noddedig
Bu disgyblion pob dosbarth drwy'r ysgol yn anelu am y gôl i gasglu arian ar gyfer eu dosbarthiadau. Roeddynt wedi cael eu hysbrydoli gan berfformiad tîm pêl-droed Cymru - ac roedd yna beldroedwyr addawol iawn yn eu mysg. Diolch i bawb am gefnogi.

Gwasanaeth Cynhaeaf
Roeddem yn ffodus iawn eto eleni i groesawu y Parch. Evan Morgan, Capel Salem, Treganna i gynnal ein gwasanaeth Cynhaeaf. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando arno yn rhannu ei neges mewn ffordd hwyliog a byrlymus. Rhannwyd y bwyd â gasglwyd â henoed yr ardal ac fe benderfynodd y Cyngor Ysgol i roi casgliad yr Adran Iau o £93 tuag at apêl Cymorth Cristnogol i helpu ffoaduriaid. Roedd hyn yn dilyn gwaith â wnaethpwyd yn yr ysgol am sefyllfa druenus ffoaduriaid.

Bwyta'n Iach
Mae'r dosbarth Meithrin a Derbyn wedi bod yn dysgu am fwyta'n iach yn ystod tymor yr hydref. Buont yn brysur yn paratoi cawl llysiau ac yn pobi bara. Roedd y bwyd yn flasus iawn a phawb wedi cael blas ar y weithgaredd!

Rygbi
Bu'r tîm rygbi yn chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn Ysgolion y Rhondda yn Ysgol y Cymer yn ddiweddar. Roeddynt wedi mwynhau yn fawr eu gemau cyntaf o'r tymor newydd.

Diwrnod y Llysgenhadon
Bu ein Llysgenhadon mewn cynhadledd ym Mharc Margam yn ddiweddar i gwrdd a Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru. Yn ystod y diwrnod trafodwyd eu cyfrifoldebau fel Llysgenhadon, eu heriau tymhorol yn ogystal a phwysigrwydd lledaenu'r neges am hawliau plant. Roeddynt wedi cael diwrnod buddiol iawn ac maent wrthi yn barod yn rhoi hyn ar waith yn yr ysgol.

Ysgol Dolau

(Tudalen 12)

Cit newydd y timau pêl-droed a rygbi

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Blwyddyn 6 ar weithgaredd pontio yn Llanhari

Llysgenhadon

Ymweliad y Frigad Dân

Gwasanaeth Cynhaeaf gyda'r Parch Evan Morgan

Ysgol Castellau

Enillwyr cystadleuaeth 'Creu Arwydd Diogelwch' ar gyfer y safle adeiladu gyferbyn â'r ysgol .





Da iawn Emily Warren o'r Dosbarth Derbyn am gael ei llun arbennig o Nodi yng nghylchgrawn WCW y mis yma!

Noson Pontio yn Ysgol Gyfun Gartholwg

Bu croeso a mwynhad enfawr i ddisgyblion a rhieni blynyddoedd pump a chwech yn Ysgol Gyfun Gartholwg ar nos Iau yr 8fed o Hydref.

Cyfle gwych i gwrdd ag athrawon a ffrindiau newydd wrth ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyffrous.

Diolch yn fawr i bawb!

Daeth y Swyddog Presenoldeb atom y mis yma i ddathlu presenoldeb gwych ein disgyblion. Daliwch ati ffrindiau!

YSGOL LLANHARI

Prif Swyddogion 2015-16
Yn groes i'r arfer, mae gennym bedwar prif swyddog eleni sef Owain Ellis, Rhianydd Reynolds, Ffion Bennett a Harriet John. Maent eisioes wedi bod yn brysur yn arwain y disgyblion yng nghyfarfodyd y cyngor , yn trefnu bore coffi Macmillan a chasgliad i elusen i ffoaduriaid. Maent yn arweinwyr naturiol a hyderwn y bydd eu cyfraniad eleni yn un cofiadwy.

Perfformio i'r Maer!
Mae un o lywodraethwyr Ysgol Llanhari, sef y Cynghorydd Barry Stephens wedi ei ethol yn faer Rhondda Cynon Taf. Fe'i sefydlwyd mewn gwasanaeth arbennig yn Llanharan ar ddechrau mis Medi. Gwahoddwyd rhai o ddisgyblion hynaf yr ysgol i berfformio i'r gynulleidfa niferus o wahoddedigion yn y seremoni a'r wledd yn dilyn hynny. Diolch i Alys, Harri, Lewis a Celyn am berfformiadau clodwiw ac i Mr Hywel am drefnu.

Cwrs Preswyl Blwyddyn 7 yng Nghaerdydd
Treuliodd disgyblion blwyddyn 7 dridiau prysur yng Nghaerdydd yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref. Arhosodd y disgyblion yng Nghanolfan yr Urdd gyda'u tiwtoriaid ac fe gafwyd amryw o gyfleon i ymweld ag atyniadau'r ddinas a'r Bae. Bu'n gwrs preswyl hynod o lwyddiannus a diolch i Miss Angharad Morgan am drefnu.

Ymwelwyr Theatr mewn addysg
Rydym wedi croesawu Asiantaeth Safonau Bwyd i'r ysgol i gynnal sioe i ddisgyblion Cadi Cwningen, Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog. Dysgodd y plant am ble i gadw bwyd yn y gegin, pwysigrwydd hylendid bwyd a rhai caneuon ar hyd y ffordd!

Croeso cynnes i Ysgol Llanhari
Pleser fu croesawu cymaint o ddisgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni i Noson Agored yr Ysgol ar y 14eg o Hydref. Roedd yn gyfle ardderchog i ymgyfarwyddo â'r ysgol, cwrdd â staff a disgyblion a mwynhau ystod eang o weithgareddau yn amrywio o wersi Ffrangeg, i arbrofion Gwyddoniaeth a gwylio ymarfer ein sioe gerdd am eleni "Nol i'r 80au"

Ar y West End
Bu Owain Ellis yn ffodus i gael ei ddewis i gynrychioli cast y sioe Les Mis yn y West End ym mis Hydref. Profiad bythgofiadwy oedd canu fersiwn Gymraeg Les Mis ar lwyfan y West End a hynny ychydig wythnosau cyn perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm. Roedd canmoliaeth anhygoel i'r criw o'r Urdd gan y cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr yn Llundain.

Cwis Cemeg
Da iawn Beca, Joseff, Rhys a William! Cynrychiolodd y pedwar yr ysgol mewn cwis Cemeg hynod heriol yn ddiweddar sef Top of the Bench. Trefnwyd hwn gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ac roedd yn brofiad gwych i'r pedwar.

Croeso
Croeso mawr i un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, Morgan Cook sydd nawr yn gweithio fel cynorthwyydd dosbarth fel rhan o'i chwrs CACHE. Bydd Miss Cook yn gweithio yn nosbarth Dewi Draenog yn y boreau ac yn nosbarth Cadi Cwningen yn y prynhawniau. Croeso mawr iddi.

Diwrnod Trosglwyddo cyntaf i flwyddyn 6
Ymwelodd disgyblion blwyddyn 6 â ni am y tro cyntaf eleni yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor. Mwynheuodd rhai dsigyblion y profiad o goginio stir fry tra bu eraill yn cymryd rhan mewn gweithdy Celf neu ddiwrnod Blas ar Iaith. Bydd y disgyblion yn ymweld am yr ail waith yn ystod Tymor y Gwanwyn lle bydd y grwpiau yn cyfnewid er mwyn scirhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa o'r un profiadau.

Elusen Macmillan
Trefnodd y prif swyddogion ac aelodau eraill o flwyddyn 13 fore coffi a stondin gacennau a llwyddwyd i godi £637.63 tuag at yr achos teilwng hwn. Da iawn bawb!

Diolch!
Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r canlynol am eu nawdd eleni : Bryncae Store/Shop, Tesco, Cwmni Bysiau Mainline a Spar Llanhari. Rydym yn defnyddio'r nawdd hwn fel rhan o'n system wobrwyo er mwyn annog gwell presenoldeb, ymdrech academaidd a Chymreictod. Croesawn unrhyw gyfraniadau gan fusnesau lleol!

Disgo Calan Gaeaf
Diolch yn fawr iawn i Ffrindiau Llanhari am drefnu parti Calan Gaeaf i blant yr ysgol! Gan fod yr ysgol yn tyfu, bu rhaid i'r disgo cael ei chynnal yn neuadd yr adran uwchradd eleni! Bu'n ddisgo llwyddiannus dros ben gyda phawb yn frwd i ddangos sut i ddawnsio! Diolch i chi am gefnogi ac am baratoi gwisgoedd gwych i'r plant!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Llwyddiannau Chwaraeon
Canlyniadau Chwaraeon Mis Hydref
Rygbi
Blwyddyn 11: 21 – 0 Y Ddraenen Wen
Blwyddyn 10: 51 – 12 Ysgol Bryn Celynnog
Blwyddyn 8: 19 – 19 Ysgol Bryn Celynnog
Blwyddyn 7: 35 – 15 Ysgol Bryn Celynnog
Blwyddyn 11: 0 - 22 Ysgol Llanhari
Tîm Cyntaf: 52 - 7 Ysgol Lewis i fechgyn
Pêl-rwyd
Blwyddyn 8: 6 – 5 Ysgol y Pant
Blwyddyn 7: 9 – 0 Ysgol y Pant

Trawsgwlad
Da iawn i ferched blwyddyn 7,8,9 a 10 a fu'n rhedeg Trawsgwlad ym mharc Trelái yng Nghaerdydd ar y 14eg o Hydref. Gwnaeth bawb rhedeg eu gorau glas a chafwyd perfformiadau da iawn gan Sara John a Carys Minton o flwyddyn 7 a Gwenno Iolo Davies a Holly James. Diolch i bawb am eu hymdrechion.

Pêl-rwyd
Ar ddechrau'r tymor, bu treialon pêl-rwyd ar gyfer carfannau rhanbarth Taf Elai a Chymoedd Morgannwg. Dewisodd Mrs Price bymtheg o ferched o flynyddoedd 8,9,10 ac 11 i ddangos eu doniau a chystadlu am le yn y timau o dan 14 ac 17. Llongyfarchiadau mawr i'r merched a enillodd le yng ngharfan rhanbarth Taf Elai, a llongyfarchiadau i'r merched canlynol a gafodd eu dewis i garfan Cymoedd Morgannwg – Mali Iolo Davies, Nia Osborne, Gwenno Iolo Davies, Grace Postlethwaite, Georgia Jenkins ac Emily Poole.
Gan Gwenno Iolo Davies Blwyddyn 9

Pêl fasged

Mae Freya Williams Blwyddyn 8 wedi cael ei dewis i chwarae yn nhimoedd pêl-fasged merched Cymru Dan 14 a Dan 16 ar gyfer 2015/16. Erbyn hyn trwy ddilyn cyrsiau mae Freya nawr hefyd yn gymwys mewn: Pêl-fasged Cymru Lefel 1 Dyfarnwraig a Phêl-fasged Cymru Lefel 1 Swyddog Amserlenni.
Roedd Freya a'i brawd Jacob wedi cael eu cyfweld a'u ffilmio ar gyfer cyfres newydd TAG ar S4C – cafodd hyn ei ddarlledu nos Wener 16eg o Hydref ac roedd yn braf i weld Freya ar y rhaglen.

Taith Emily Poole i Hwngari
Bu Emily Poole yn Hwngari o'r 8fed i'r 16eg o Hydref yn chwarae pêl droed i dîm dan 17 Cymru. Roeddent yn chwarae mewn twrnamaint i ennill lle yng nghystadleuaeth Ewrop merched o dan 17. Mae Emily ond yn 15 mlwydd oed ac felly roedd hi wedi gwneud yn eithriadol o dda i gyrraedd tîm yn hŷn na'i hoedran. Dyma adroddiad gan Emily am y profiad: Hedfanon ni o Heathrow i Awstria ac yna aethom ar fws i Hwngari. Yn anffodus colli gwnaethom yn erbyn Hwngari o ddwy gôl i un ond roedd y gêm yn agos iawn ac roeddwn yn meddwl ein bod yn haeddu canlyniad gwell. Gwnaethom hefyd golli yn erbyn Denmarc o dair gôl i ddim ond enillon ni yn erbyn Israel o bedair gôl i ddim. Yn anffodus nid oedd hyn yn ddigon i ni barhau yn bellach yn y twrnamaint. Er hyn, roeddwn wedi mwynhau'r profiad ac rwy'n mynd i geisio parhau i wella er mwyn parhau i chwarae dros Gymru.

Pêl-droed blwyddyn 8
Llwyddodd Blwyddyn 8 i ennill 5-3 yn erbyn Ysgol Uwchradd Bedwas yn rownd gyntaf Cwpan Cymru ar y 12fed o Hydref mewn gêm gyffrous iawn a oedd yn llawn goliau! Y sgorwyr ar y noson oedd Lewis Thomas o flwyddyn 7 a sgoriodd ddwy gôl, Ethan Vaughan gyda dwy gôl a Jack Karadogan gydag 1. Clod mawr i Lewis Thomas, Jack Karadogan, Steffan Thomas a Will O'Brian a oedd wedi chwarae i flwyddyn 8 er eu bod ym mlwyddyn 7.

Rhys Britton – Mwy o lwyddiant ar y beic
Cystadlodd Rhys ym Mhencampwriaethau Dan 16 Prydain ym Manceinion yng nghanol mis Hydref. Enillodd ef a'i dîm y wobr Aur a Phencampwriaeth Prydain. Perfformiad ardderchog arall gan Rhys.

Sefydliad Nuffield – Dafydd Roberts
Mae sefydliad Nuffield yn rhoi cyfle i ddisgyblion ym mlwyddyn 12 dreulio ei haf yn gwneud ymchwil wyddonol gyda sefydliad sy'n gwneud ymchwiliadau yn y byd gwaith. Roedd fy lleoliad i yn yr Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhoddodd hwn gyfle i mi wneud ymchwil mewn awyrgylch broffesiynol gyda gwyddonwyr profiadol. Pwrpas fy mhrosiect i oedd dilyn gwaith fy narparwr prosiect, Dr Rychlowska, a'i phrosiect yn cymharu'r effaith ar fewnfudiad hir dymor ac arddangosiad emosiynol. Cafodd yr ymchwil gwreiddiol ei selio ar ystadegau byd eang, ond roeddwn yn pryderu am rai tueddiadau oedd i weld yn yr ystadegau. I ofalu am y tueddiadau hyn roedd yn rhaid i mi gymharu mewnfudiad hanesyddol taleithiau'r UDA â mesurau o arddangosiad emosiynol.
Yn y diwedd roedd y canlyniadau yn cytuno â'r disgwyliadau o'r ymchwiliad cyntaf, gan nodi cysylltiad cryf rhwng mewnfudiad hir dymor ac arddangosiad emosiynol cymunedau.
Gan Dafydd Roberts, Blwyddyn 13



Clwb Rygbi Pontypridd - chwarae i ennill ac i ddatblygu talentau newydd

Pontypridd yn herio Cross Keys

Mae wythnosau cyntaf y tymor rygbi newydd wedi bod yn rhai da i Glwb Pontypridd, gyda record o chwarae saith, ennill chwech a cholli dim ond un yn yr Uwch-Gynghrair hyd at ganol mis Hydref.

Wedi ennill chwe gêm o'r bron, gan sicrhau pwynt bonws am sgorio pedwar cais neu fwy ar bob achlysur, wynebodd Ponty gêm galed oddi cartref yn erbyn Cross Keys ar ddydd Sadwrn 17eg o Hydref. Roedd y Keys eu hunain ar rediad da, wedi ennill eu pedair gem ddiwethaf, ac roedd gornest ddigyfaddawd i'w disgwyl.

Felly y bu gyda'r ddau dîm yn brwydro am oruchafiaeth drwy gydol y prynhawn. Un cais yn unig a sgoriwyd yn ystod yr hanner cyntaf, hwnnw yn rhoi mantais o chwe phwynt i Ponty ar yr hanner.

Collodd yr ymwelwyr rai cyfleoedd i sgorio yn hwyrach yn y gêm, ac roedd y sgôr yn gyfartal 22 yr un wrth fynd mewn i amser ychwanegol. Gyda gweithred olaf y gêm lansiodd cefnwr y Keys Ethan Davies gic gosb o bellter rhwng y pyst i sicrhau buddugoliaeth i'w dîm o ddau bwynt yn unig.

Roedd hi'n siom enfawr i gefnogwyr Pontypridd oedd wedi teithio i gymoedd gorllewinol Gwent, ac yn siom i'r chwaraewyr a'r hyfforddwyr hefyd wrth reswm. Er gwaethaf y golled roedd Ponty dal ar frig yr adran.

Seren y gêm yn erbyn Cross Keys oedd y maswr ifanc o Drehopcyn Jarrod Evans. Sgoriodd ddau gais, un yn ymdrech ddisglair wrth iddo weu ei ffordd drwy amddiffyn y gwrthwynebwyr, a rheolodd chwarae ei gefnwyr yn gelfydd, gan gicio yn ddeallus i ennill tir dro ar ôl tro.

Mae Jarrod yn enghraifft arbennig o'r talent ifanc sy'n codi drwy'r rhengoedd gyda Phontypridd. Bu'n chwarae dros y clwb ar bob lefel o oedran saith ymlaen, cyn cael ei alw i garfan ddatblygu rhanbarth y Gleision. Y mae eisoes wedi ennill capiau i Gymru ar lefel ieuenctid a dan ugain, ac wedi bod yn chwaraewr dylanwadol dros ben i Bontypridd yn yr Uwch-Gynghrair.

Bechgyn ifanc eraill o'r cymoedd sy'n disgleirio i Ponty y tymor hwn yw'r ddau brop Corey Domachowski a Keiron Assiratti, a'r wythwr Hemi Barnes.

Mae chwarae ar lefel gystadleuol Uwch-Gynghrair y Principality, gan fynd benben yn erbyn gwrthwynebwyr llawer mwy profiadol, yn sicr yn hwb i ddatblygiad y genhedlaeth newydd hyn.

Amcan Pontypridd yw amddiffyn eu statws fel pencampwyr clybiau Cymru, drwy chwarae rygbi ymosodol a chreadigol, ac i feithrin doniau ifanc fel Jarrod Evans, Corey Domachowski, Keiron Assiratti a Hemi Barnes yn y cyfamser.

Am y newyddion diweddaraf am Glwb Rygbi Pontypridd galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net